# Y Pwyllgor Iechyd, Lles a Llywodraeth Leol

HWLG(3)-07-10-p2: 25 Mawrth 2010

## Ymchwiliad i wasanaethau Newyddenedigol - Tystiolaeth gan y Gweinidog dros Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol

### 1. Diben

Mae'r papur hwn yn cyflwyno tystiolaeth i ymchwiliad y Pwyllgor Iechyd, Lles a Llywodraeth Leol i Wasanaethau Newyddenedigol.

### 2. Tystiolaeth

Mae darparu gwasanaethau mamolaeth a phlant o safon uchel yn flaenoriaeth allweddol. Disgwyliaf i'r GIG ddarparu gwasanaethau sy'n diwallu anghenion merched a'u babanod, a rhoi profiad cadarnhaol drwy gyfnod y beichiogrwydd a'r enedigaeth. Mae gwasanaethau newyddenedigol, sy'n darparu gofal ar gyfer babanod sâl, yn rhan hanfodol o'r gwasanaethau mamolaeth ac ni ellir eu hystyried ar wahân.

Yn fy ymateb diweddar i adroddiad y Pwyllgor Cyfrifon Cyhoeddus ar Wasanaethau Mamolaeth, nodais fy nghynlluniau ar gyfer gwneud gwelliannau. Disgrifiais y cynnydd a wnaed eisoes, a'r meysydd blaenoriaeth i'w datblygu gan gynnwys:

Dulliau newydd o ymdrin â gofal cynenedigol i'w wneud yn fwy hygyrch

Sicrhau bod gofal cynenedigol yn seiliedig ar anghenion yr unigolyn

BILlau i recriwtio mwy o fydwragedd i ateb y lefelau staffio a argymhellir gan Birthrate Plus. Yn ogystal, mae lleoedd hyfforddi bydwragedd wedi cynyddu ym mhob un o'r tair blynedd diwethaf

Cyflwyno Gweithwyr Cymorth Mamolaeth, gyda niferoedd yn cael eu penderfynu'n lleol yn seiliedig ar angen. Datblygwyd cwricwlwm Cymru gyfan yn 2009, ac mae Penaethiaid Bydwreigiaeth yn gweithio gydag AGAAGI i benderfynu ar nifer y lleoedd hyfforddiant sydd eu hangen

Rhaglenni hyfforddiant gorfodol, wedi'u monitro ym mhob BILl, gyda lefel uchel o gydymffurfiaeth, sy'n bodloni gofynion Cronfa Risg Cymru a oruchwylir gan yr Awdurdod Goruchwylio Lleol

Darparu'r Llyfr Beichiogrwydd i bob merch sydd am gael copi

Sicrhau mwy o offer ar wardiau esgor, gyda chynlluniau ar waith i lenwi unrhyw ddiffygion

Gofal seiliedig ar dystiolaeth yn ystod y cyfnod esgor

Archwiliad o gyfraddau toriadau cesaraidd a datblygu cynlluniau gweithredu ym mhob BILl

Canolbwyntio ar wella bwydo o'r fron

Arolygon o foddhad defnyddwyr gwasanaethau mamolaeth sy'n nodi gwelliannau i wasanaethau ar lefel leol.

Rwyf wedi sefydlu Prosiect Clinigol Cenedlaethol, a arweinir gan fy Nghyfarwyddwr Strategaeth a Chynllunio, i ysgogi mwy o welliannau mewn gwasanaethau mamolaeth, gwasanaethau newyddenedigol a gwasanaethau pediatreg. Bydd y prosiect yn:

Llunio Strategaeth Famolaeth i Gymru erbyn mis Rhagfyr 2010

Gweithredu datblygiadau mewn gwasanaethau newyddenedigol

Sicrhau bod Cynlluniau Gweithredu Mamolaeth BILlau yn cael eu paratoi a'u gweithredu

Llunio Strategaeth ddrafft ar gyfer Gwasanaethau Pediatreg mewn Ysbytai erbyn mis Mawrth 2011.

Caiff y prosiect ei ddatblygu drwy dri grŵp a arweinir yn glinigol, yn seiliedig ar grwpiau BILlau yn y de-ddwyrain, y canolbarth a'r gorllewin, a'r gogledd. Ymhlith aelodau'r grwpiau bydd uwch gynrychiolwyr clinigol o bob disgyblaeth berthnasol yn y cymunedau lleol, wedi'u cefnogi gan gynrychiolwyr cynllunio lleol. Bydd Grŵp Llywio yn goruchwylio'r gwaith gweithredu, gyda Cholegau Brenhinol ymhlith yr aelodau.

Rwy'n sicr fy marn bod yn rhaid i glinigwyr sy'n deall anghenion y rhai maent yn gofalu amdanynt arwain y gwaith o ddatblygu'r gwasanaeth. Maent yn y sefyllfa orau i'm cynghori ar flaenoriaethau, a chynorthwyo eu BILlau ar lefel weithredol o ran cynllunio a darparu gwasanaethau o safon uchel. Arweinir y gwaith a amlinellir uchod gan glinigwyr, gan gynnwys staff meddygol, nyrsio a bydwreigiaeth. Caiff ei lywio gan farn defnyddwyr gwasanaethau. Yn anad dim, bydd yn canolbwyntio ar sicrhau gwelliannau dirnadwy mewn gwasanaethau.

Mae gwasanaethau newyddenedigol i fabanod yn gofalu am fabanod sy'n aml yn sâl iawn. Maent yn rhan hanfodol o'r gwasanaethau

bydwreigiaeth, a rhaid eu cynllunio a'u darparu gyda'i gilydd.

Yn 2008 ymgynghorais â phediatregyddion a neonatolegyddion ledled Cymru ar waith CIC i adolygu gwasanaethau newyddenedigol. Yn dilyn y drafodaeth honno, cyhoeddais y byddwn yn rhoi £2m y flwyddyn i gefnogi'r gwaith o wella gwasanaethau, a sefydlais Grŵp Cynghori Clinigol i roi cyngor i mi ar y blaenoriaethau. Cadeiriwyd y grŵp gan Dr Jean Matthes, neonatolegydd ymgynghorol o Ysbyty Singleton. Ymhlith aelodau'r grŵp roedd clinigwyr o Gymru benbaladr, gan gynnwys neonatolegyddion, pediatregyddion, obstetryddion, uwch nyrsys neonatolegol a bydwragedd.

Ystyriodd y Grŵp Cynghori Clinigol y mater yn ofalus, a thrafodwyd y meysydd blaenoriaeth i roi sylw cynnar arnynt. Cyflwynodd y grŵp adroddiad i mi ym mis Tachwedd 2009, ac argymhellodd nifer o ddatblygiadau y dylid eu rhoi ar waith cyn gynted â phosibl. Roedd y rhain yn cynnwys:

Gwasanaeth Trafnidiaeth Newyddenedigol

Rhwydwaith Clinigol Newyddenedigol

System Gwybodaeth Glinigol.

Derbyniais y cyngor hwn, a chyhoeddais ym mis Rhagfyr 2009 y câi'r datblygiadau hyn eu gweithredu. Gwneuthum gadarnhau y câi'r arian a gyhoeddwyd yn flaenorol ei wneud yn gylchol.

Bydd y datblygiadau hyn yn mynd i'r afael â phroblemau mwyaf gwasanaethau newyddenedigol, ac yn arbennig bydd yn:

Ariannu 5 neonatolegydd ymgynghorol ychwanegol, gan gynnwys 2 yng ngogledd Cymru

Galluogi creu rota newyddenedigol ymrwymedig yng ngogledd Cymru

Ariannu 5 meddyg canolradd

Ariannu 11 o nyrsys newyddenedigol newydd

Ariannu 4 Uwch Ymarferydd Nyrsio Newyddenedigol (ANNP)

Galluogi hyfforddi mwy o ANNPau i helpu i ymestyn rolau nyrsio

Cefnogi'r broses trosglwyddo babanod sâl i grudiau newyddenedigol yn ôl yr angen

Hwyluso'r gwaith o gasglu gwybodaeth i ategu archwilio clinigol

Creu un dull ar gyfer rhoi cyngor ar gynllunio a darparu gwasanaethau newyddenedigol yn y dyfodol.

Ers mis Rhagfyr 2009, mae'r Grŵp Cynghori Clinigol wedi gweithio ar droi'r cynigion a nodwyd yn y Ganolfan Fusnes yn gynlluniau gweithredu manwl. Mae'r grŵp wedi mireinio manylion y cynigion, a chymeradwyais Achos Busnes diwygiedig. Gan ddefnyddio'r arian a roddwyd gennyf eisoes, caiff y canlynol eu gweithredu:

Dau wasanaeth cludo newyddenedigol, un i Ogledd Cymru a'r llall i Dde Cymru. Bydd gwasanaeth De Cymru yn gweithredu'n gylchol rhwng Abertawe, Caerdydd a Chasnewydd

Recriwtio ar unwaith mewn swyddi ychwanegol yn y prif ganolfannau gofal newyddenedigol i sefydlu gwasanaethau cludo

Caffael offer arbenigol ar gyfer y gwasanaeth cludo, gyda threfniant interim i alluogi'r gwasanaeth i ddechrau cyn gynted â phosibl

Rhwydwaith Clinigol Newyddenedigol Cymru gyfan

Arweinydd y rhwydwaith clinigol i roi arweinyddiaeth, cyngor a chanllawiau i Fyrddau Iechyd drwy Bwyllgor Gwasanaethau Arbenigol Iechyd Cymru

Rheolwr rhwydwaith Cymru gyfan i ategu'r prif glinigydd wrth ysgogi'r newidiadau gofynnol ym maes gofal newyddenedigol

Nodi prif neonatolegydd ac arweinydd cludo i bob uned

System wybodaeth glinigol newyddenedigol

Mae'r datblygiadau a gymeradwyais yn seiliedig ar gyngor clinigwyr ar y prif flaenoriaethau y dylid ymdrin â hwy. Cyfrifoldeb y GIG, gan weithio gyda'r Rhwydwaith Newyddenedigol Clinigol, yw sicrhau eu bod yn cael eu gweithredu'n gyflym.

Disgwyliaf i'r Rhwydwaith werthuso effaith y datblygiadau hyn, a rhoi cyngor i'r GIG drwy Bwyllgor Gwasanaethau Arbenigol Iechyd Cymru ar y blaenoriaethau nesaf i'w hystyried. Fy nod yw sicrhau bod gwasanaethau mamolaeth a phlant yn ddiogel ac yn gynaliadwy. Mae'r datblygiadau a amlinellir yn y papur tystiolaeth hwn yn dangos y camau rwyf eisoes yn eu cymryd.

Mae'n bwysig ein bod yn ystyried effaith y gwasanaeth cludo a'r staff ychwanegol cyn penderfynu ar y blaenoriaethau nesaf. Yn seiliedig ar gyngor clinigol, efallai mai'r flaenoriaeth nesaf fydd cyflogi mwy o staff i'n hunedau gofal dwys newyddenedigol, yn hytrach na chynyddu oriau gweithredu'r gwasanaeth cludo. Dylem hefyd ganolbwyntio ar feithrin gallu ac adnoddau i leihau nifer y trosglwyddiadau

i Loegr, a all sicrhau manteision cynt i famau a babanod.

### 3. Casgliad

Rwyf wedi dechrau'r broses o wneud nifer o welliannau mewn gwasanaethau mamolaeth a newyddenedigol, yn seiliedig ar gyngor gan glinigwyr. Mae creu'r Rhwydwaith Newyddenedigol Clinigol yn gam pwysig i atgyfnerthu arweinyddiaeth glinigol yn y maes hwn. Disgwyliaf arweinyddiaeth glinigol debyg gan staff meddygol a bydwreigiaeth wrth ddatblygu'r Strategaeth Famolaeth, y Strategaeth Gwasanaethau Pediatreg mewn Ysbytai, a Chynlluniau Gweithredu Mamolaeth lleol. Cyfrifoldeb y Byrddau Iechyd fydd blaenoriaethau'r cynlluniau, i sicrhau y gall mamau a babanod fanteisio ar yr holl o wasanaethau hygyrch o safon uchel y nodwyd eu bod yn angenrheidiol i ddiwallu eu hanghenion.